# Dŵr Cymru Cyfyngedig

Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003)

## Hysbysiad dan adran 51 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan adran 21 o Ddeddf Dŵr 2003).

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod ceisiadau wedi eu gwneud i Cyfoeth Naturiol Cymru gan Dŵr Cymru Cyfyngedig i amrywio saith trwydded lawn i echdynnu dŵr, rhifau cyfresol 20/56/13/17, 20/56/21/34, 20/56/22 / 0027, 20/56/41/0007, 20/56/44/16, 20/56/45/0011 a 20/56/54/0001. Mae'r trwyddedau hyn yn awdurdodi echdynnu dŵr oddi mewn i dalgylch Afon Wysg yn y Cyfeiriadau Grid Cenedlaethol a roddir isod.

Mae'r trwyddedau hyn, ar hyn o bryd, yn caniatáu i Ddeiliad y Drwydded echdynnu'r symiau a ganlyn at ddiben cyflenwad dŵr cyhoeddus:

| Rhif y Drwydded | Symiau Awdurdodedig Cyfredol | Cyfeirnod Grid Cenedlaethol |
|---|---|---|
| 20/56/13/17 | 68,190,000 metr ciwbig y flwyddyn | ST 33 99 |
| 20/56/21/34 | 3,220 metr ciwbig yr awr<br>7,282 metr ciwbig y dydd<br>28,285,212 metr ciwbig y flwyddyn | ST 39 97 |
| 20/56/22/0027 | 318,220 metr ciwbig y dydd<br>68,190,000 metr ciwbig y flwyddyn | SO 37 02 |
| 20/56/41/0007 | 72,736 metr ciwbig y dydd<br>26,550,000 metr ciwbig y flwyddyn | SO 10 21 |
| 20/56/44/16 | 327 metr ciwbig yr awr<br>5,770 metr ciwbig y dydd<br>2,110,545 metr ciwbig y flwyddyn | SO 03 29 |
| 20/56/45/0011 | 327 metr ciwbig yr awr<br>5,770 metr ciwbig y dydd<br>2,110,545 metr ciwbig y flwyddyn | SO 03 29 |
| 20/56/54/0001 | Pwynt A:<br>40,914 metr ciwbig y dydd<br>13,274,320 metr ciwbig y flwyddyn<br><br>Pwynt B:<br>2,018.4 metr ciwbig y dydd<br>663,716 metr ciwbig y flwyddyn | SN 82 29<br>SN 83 29 |

Ceir crynodeb o'r amrywiadau arfaethedig i'r drwydded yn y tabl canlynol:

| Rhif y Drwydded | Newidiadau i'r Drwydded |
|---|---|
| 20/56/13/17 | • Ffurfioli cofnodi cyfaint storio'r gronfa ddŵr. Yn dod i rym o 31/12/2018. |

| | |
|---|---|
| 20/56/21/34 | Yn dod i rym o 1/01/2019:<br>• Cyfaint dyddiol y dŵr sydd i'w echdynnu ar unrhyw ddiwrnod i'w gymryd dros isafswm cyfnod o 20 awr olynol.<br>• Lleihau'r swm trwyddedig dyddiol cyfanredol ar gyfer trwyddedau 20/56/21/34 a 20/56/22/0027 yn seiliedig ar y llif yng Ngorsaf Fedryddu cored Trostre; storio yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd a'r adeg o'r flwyddyn.<br>• Galluogi echdynnu gollyngiadau wedi'u rheoleiddio, a wnaed o Gronfa Ddŵr Wysg, gydag uchafswm o 50,000 metr ciwbig y dydd rhwng trwyddedau 20/56/21/34 a 20/56/22/0027.<br>• Cynnwys amod sgrinio cyflwr pysgod a dderbynnir wrth echdynnu. |
| 20/56/22/0027 | • Diweddaru'r amod rhyddhau rheoledig presennol er mwyn cymryd i ystyriaeth y datganiadau echdynnu rheoledig dan drwyddedau 20/56/44/16 and 20/56/45/0011 yn Aberhonddu.<br>Yn dod i rym o 1/01/2019:<br>• Cyfaint dyddiol y dŵr sydd i'w echdynnu ar unrhyw ddiwrnod i'w gymryd dros isafswm cyfnod o 20 awr olynol.<br>• Lleihau'r swm trwyddedig dyddiol cyfanredol ar gyfer trwyddedau 20/56/21/34 a 20/56/22/0027 yn seiliedig ar y llif yng Ngorsaf Fedryddu cored Trostre; storio yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd a'r adeg o'r flwyddyn.<br>• Diweddaru'r amod presennol mewn perthynas â rhyddhau rheoledig, gan gapio echdynnu dŵr rheoledig ar 50,000 metr ciwbig y dydd rhwng trwyddedau 20/56/21/34 ac 20/56/22/0027<br>• Galluogi fflysio wrth gynnal a chadw'r bibell drosglwyddo sy'n cludo dŵr a echdynnir i Gronfa Ddŵr Llandegfedd.<br>• Cynnwys amod sgrinio cyflwr pysgod a dderbynnir wrth echdynnu. |
| 20/56/41/0007 | • Nodi uchafswm y dŵr y gellir ei ryddhau bob dydd o'r gronfa, gan gymryd i ystyriaeth yr holl ollyngiadau dŵr y gellir eu gwneud. Yn dod i rym o 31/12/2018. |
| 20/56/44/16 | • Lleihau'r swm trwyddedig dyddiol cyfanredol ar gyfer trwyddedau 20/56/44/16 a 20/56/45/0011 yn seiliedig ar y llif yng Ngorsaf Fedryddu cored Trostre.<br>• Galluogi echdynnu gollyngiadau wedi'u rheoleiddio, a wnaed o Gronfa Ddŵr Wysg, gydag uchafswm o 2,724 metr ciwbig y dydd rhwng trwyddedau 20/56/44/16 a 20/56/45/0011. |
| 20/56/45/0011 | • Lleihau'r swm trwyddedig dyddiol cyfanredol ar gyfer trwyddedau 20/56/44/16 a 20/56/45/0011 yn seiliedig ar y llif yng Ngorsaf Fedryddu cored Trostre.<br>• Galluogi echdynnu gollyngiadau wedi'u rheoleiddio, a wnaed o Gronfa Ddŵr Wysg, gydag uchafswm o 2,724 metr ciwbig y dydd rhwng trwyddedau 20/56/44/16 a 20/56/45/0011. |

| | |
|---|---|
| 20/56/54/0001 | • Galluogi rhyddhau dŵr rheoledig i gefnogi echdynnu dan drwyddedau 20/56/44/16 a 20/56/45/0011.<br>Yn dod i rym o 1/01/2019:<br>• Galluogi rhyddhau dŵr rheoledig i gefnogi echdynnu dan drwyddedau 20/56/21/34 a 20/56/22/0027.<br>• Ffurfioli rhyddhau dŵr rheoledig i gefnogi echdynnu dan drwyddedau<br>• Nodi uchafswm y dŵr y gellir ei ryddhau bob dydd o'r gronfa, gan gymryd i ystyriaeth yr holl ollyngiadau dŵr y gellir eu gwneud. |

Mae Afon Wysg yn afon a warchodir yn rhyngwladol ac yn genedlaethol; mae hyn yn cynnwys cael ei dynodi fel Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r amrywiadau trwydded hyn yn cael eu gwneud fel rhan o raglen i wella amgylchedd yr afon ac i adfer echdynnu cynaliadwy dan y broses Adolygiad o Ganiatâd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer Afon Wysg ACA. Bydd y rhain hefyd yn helpu Deiliad y Drwydded i fodloni ei rwymedigaethau dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Rydym yn cefnogi'r ceisiadau.

Mae Deiliad y Drwydded yn gwneud y ceisiadau hyn yn wirfoddol ac mae ganddo hawl i wneud hynny dan adran 51 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).

Gallwch ofyn am gopi digidol o'r ceisiadau, yn rhad ac am ddim, drwy gysylltu â nrp.southeast@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y ceisiadau, rhaid i chi wneud hynny'n ysgrifenedig, gan ddyfynnu enw'r ymgeisydd a'r rhif(au) trwydded perthnasol o'r tablau uchod i Adnoddau Naturiol Cymru yn:

Cynllunio Cyfoeth Naturiol Dwyrain (Adnoddau Dŵr)
Cyfoeth Naturiol Cymru
Plas yr Afon
Ffordd Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0EY

neu mewn e-bost i nrp.southeast@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Erbyn dim hwyrach na 20 Chwefror 2017.

Fel arfer rhaid i ni osod unrhyw ymatebion a dderbyniwn ar y gofrestr gyhoeddus. Dywedwch wrthym, os gwelwch yn dda, os nad ydych am i'ch manylion fod yn gyhoeddus. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran ymgynghoriadau ar ein gwefan https://naturalresources.wales/about-us/consultations/?lang=en neu ffoniwch ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid 0300 0653000 (Llun-Gwener, rhwng 9am a 5pm).

Paula Taylor
16/01/2017